Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau Medr

# Ansawdd a Methodoleg: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyrchfannau dysgwyr, Awst 2021 i Orffennaf 2023 (ystadegau swyddogol yn cael eu datblygu)

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ystadegau:** | Sta/Medr/18/2025 – **Atodiad A** |
| **Dyddiad:** | 10 Rhagfyr 2025 |
| **E-bost:** | ystadegau@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | **Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg wrth gynhyrchu'r ystadegau a geir yn y Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Datganiad ystadegol am gyrchfannau dysgwyr** |
| **Thema:** | Addysg bellach, y chweched dosbarth, dysgu seiliedig ar waith |
| **Ffynhonnell:** | Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol<br>Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)<br>Casglu Data ôl-16<br>Data Addysg wedi'u Paru (MED)<br>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)<br>Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)<br>Data cyflogaeth P45 a P14 |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys

Y cyd-destun ..... 2

Cefndir y datganiad ..... 2
Ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu ..... 2
Dysgwyr sydd wedi'u cynnwys yn y mesurau hyn ..... 2

Ffynonellau Data ..... 4

Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEO) ..... 4
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ..... 4
Casgliadau Data ôl-16 ..... 4
Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ..... 4
Data Cyflogaeth P45 a P14 (a gedwir gan CThEF) ..... 5

Oedi ..... 5

Y Broses Baru ..... 6

Mesurau cyrchfan ..... 6

Cyflogaeth barhaus ..... 6
Dysgu parhaus ..... 7
Cyrchfan barhaus ..... 8
Dysgu (heb fod yn barhaus) ..... 8
Cyrchfan dysgu neu gyflogaeth barhaus ..... 9
Cyfyngiadau'r data ..... 9

Data cydraddoldeb ..... 9

Argaeledd data ar gyfer dimensiynau cydraddoldeb ..... 10

Talgrynnu ..... 11

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd ..... 11

Perthnasedd ..... 11
Manwl gywirdeb ..... 11
Amseroldeb a phrydlondeb ..... 11
Hygyrchedd ac eglurder ..... 12
Cymaroldeb a chydlyniad ..... 12
Gwaith yn y dyfodol ..... 13

Rhagor o fanylion ..... 13

Allbynnau ystadegol eraill sy'n defnyddio'r LLWR sy'n sail i'r datganiad ..... 13

# Y cyd-destun

## Cefndir y datganiad

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr erthygl ystadegol Cyrchfannau Addysg Dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, 2014/15, gan ddatgan bod prosiect ar wahân yn cael ei gynnal i bennu cyrchfannau cyflogaeth dysgwyr yng Nghymru. Y prosiect hwnnw yw'r Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEO), sydd wedi galluogi cysylltu data o'r Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a Chasgliadau Data Ôl-16 â data cyflogaeth gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Gweler y Ffynonellau Data am ragor o wybodaeth.

Mae hyn wedi bod yn fodd i greu darlun mwy cyflawn o gyrchfannau dysgwyr mewn addysg bellach, yn y chweched dosbarth, ac mewn dysgu seiliedig ar waith, os ydy hynny'n golygu parhau mewn addysg, cyflogaeth, y ddau, neu'r naill na'r llall. Cyhoeddwyd datganiad cyntaf y gyfres hon ym mis Medi 2018; Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: cyrchfannau dysgwyr, 2015/16.

Yn ôl adborth yn dilyn datganiad cyntaf y gyfres hon, gallai defnyddio'r gair 'cadarnhaol' yn y categorïau mesur olygu bod deilliannau sy'n gadarnhaol i unigolyn, fel gwirfoddoli neu fod yn rhiant, yn cael eu hanwybyddu. I'r gwrthwyneb, gallai hefyd gasglu deilliannau llai ffafriol (fel cyflogaeth ar gontract dim oriau). Mae'r gair 'cadarnhaol' felly wedi'i ddileu o'n terminoleg. Fodd bynnag, mae'r fethodoleg ar gyfer y mesur dysgu a chyflogaeth barhaus uchod yn dal i fod yr un peth ag ar gyfer y mesur cyrchfan gadarnhaol a gyflwynir yn natganiad cyntaf y gyfres hon.

## Ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu

Gall ystadegau swyddogol sy' n cael eu datblygu fod yn ystadegau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes, a byddant yn cael eu profi gyda defnyddwyr, yn unol â'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Yn flaenorol, byddai'r ystadegau hyn yn cael eu galw'n 'ystadegau arbrofol'.

Mae defnydd Medr o setiau data a ddefnyddir i greu'r mesurau hyn yn dal i esblygu a bydd Medr yn parhau i ystyried y ffyrdd gorau o fesur dilyniant a chyrchfannau dysgwyr. Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi unrhyw adborth ar fethodoleg neu gynnwys yr allbwn hwn. Cysylltwch â ni yn ystadegau@medr.cymru.

## Dysgwyr sydd wedi'u cynnwys yn y mesurau hyn

Mae'r carfannau o ddysgwyr a gyflwynir yn y datganiad hwn yn cynnwys pob dysgwr ôl-16 a derfynodd raglen ddysgu gymwys yng Nghymru yn ystod y flwyddyn academaidd. Dysgwyr ôl-16 yw'r rhai sy'n astudio mewn sefydliadau addysg bellach, y chweched dosbarth mewn ysgolion ac mewn dysgu seiliedig ar waith (prentisiaethau, Twf Swyddi Cymru+ / hyfforddeiaethau a rhaglenni cyflogadwyedd eraill), ond nid yw'n cynnwys y sector dysgu oedolion yn y gymuned. Nid yw gorffen rhaglen ddysgu o reidrwydd yn golygu eich bod wedi 'gadael’. Er enghraifft, bydd llawer o ddysgwyr sy'n cwblhau rhaglenni astudio Safon UG yn aros gyda'u darparydd dysgu i ddilyn rhaglen U2.

Nid yw'r erthygl yn cynnwys gwybodaeth am gyrchfannau dysgwyr a gyflawnodd:

- Gwrs dysgu wedi'i ddarparu mewn ysgol annibynnol
- Cwrs dysgu addysg uwch gyda darparydd addysg uwch

- Hyfforddiant wedi'i gyllido'n breifat mewn sefydliadau AB a sefydliadau hyfforddi annibynnol

Yn y fersiwn flaenorol o'r datganiad hwn, yn dilyn adolygiad o'r fethodoleg, hepgorwyd nifer o fathau o raglenni dysgu o'r carfannau, gan gynnwys carfannau o'r blynyddoedd cynt. Nod hyn oedd gwella'r gallu i gymharu a chydlyniant ar draws y gyfres amser.

- Rhaglenni addysg uwch (AU) - o 2016/17 ymlaen, symudodd pob rhaglen AU a oedd yn cael ei hariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o gael ei hadrodd drwy LLWR i gael ei hadrodd drwy'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). (Gweler isod) O ganlyniad i hyn, gostyngodd nifer y rhaglenni AU mewn SABau rhwng 2015/16 a 2016/17 gan nad yw cyrchfannau dysgwyr lefel AU o HESA ar gael i'w dadansoddi. Nid ydynt felly wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn. Mae'r newid hwn yn effeithio'n bennaf ar garfannau dysgwyr 2014/15 a 2015/16.
- Prentisiaethau Iau – wedi'u hepgor gan mai darpariaeth cyn-16 yr ydynt, nad ydynt oddi mewn i gwmpas y mesurau perfformiad hyn.
- Atebion Creadigol a Sgiliau Byw'n Annibynnol, Cyfrifon Dysgu Proffesiynol (PLAs) – nid yw'r rhaglenni hyn wedi'u cynnwys yn y mesurau cyson ôl-16 ar hyn o bryd.
- Rhaglenni a derfynwyd gan fod y dysgwr wedi marw - hepgorwyd y rhain er mwyn sicrhau cysondeb â'r modd yr ymdrinnir â rhaglenni o'r fath o fewn y mesur cyflawniad.

Arweiniodd hyn at hepgor rhwng 2,000 a 4,000 o raglenni dysgu o garfannau a gyhoeddwyd mewn rhifynnau blaenorol o'r datganiad hwn. Y brif effaith oedd cynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth barhaus o tua un pwynt canran ar gyfer carfannau 2014/15 i 2018/19, cynnydd o un pwynt canran mewn dysgu parhaus ar gyfer y carfannau 2014/15 a 2015/16, a chynnydd o un pwynt canran mewn cyrchfannau parhaus ar gyfer carfannau 2014/15 i 2016/17. Bu cynnydd o ddau bwynt canran mewn cyflogaeth barhaus ar gyfer carfan 2019/20, tra bo'r gyfradd cyrchfannau parhaus wedi codi un pwynt canran. Bydd rhywfaint o'r newid hwn hefyd yn deillio o ddiweddaru data cyflogaeth gan LEO.

Bydd dysgwyr ôl-16 yn y chweched dosbarth mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, a'r rhai mewn dysgu seiliedig ar waith oll yn dilyn rhaglen astudio sy'n cynnwys cyfuniad o gymwysterau. Ceir ystod o raglenni sy'n cwmpasu safon UG/Uwch a'r ystod eang o gymwysterau galwedigaethol a gynigir. Nodir dysgu cymwys drwy ddefnyddio'r LLWR a Chasgliadau Data Ôl-16, sef dyddiadau dechrau a gorffen y rhaglen ddysgu yn benodol. Mae'r mesurau a adroddir yma yn cwmpasu dysgwyr sy'n terfynu rhaglen ddysgu mewn blwyddyn academaidd (1 Medi i 31 Awst ar gyfer chweched dosbarth ysgolion, 1 Awst i 31 Gorffennaf ar gyfer darparwyr eraill), p'un a gofnodwyd y rhaglen ddysgu fel un 'wedi'i chwblhau' ai peidio'. Ni ddefnyddiwyd dyddiadau dechrau a gorffen rhaglenni dysgu yn y Casgliad Data Ôl-16 oherwydd problemau ansawdd data. Mae dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i raglen yn gynnar (dysgwyr wedi cofrestru ar raglen ddysgu am lai na 8 wythnos) wedi'u hepgor.

Dysgwyr 16+ oed yw'r rhai sydd o leiaf yn 16 oed ar ddechrau'r flwyddyn pan fyddant yn terfynu eu dysgu neu eu hyfforddiant, h.y. yn achos dysgwyr sy'n terfynu yn 2022/23 mae hyn yn cynnwys dysgwyr a oedd yn 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2022. Adroddir ar gyrchfannau ar sail dysgwyr ac mae dysgwyr yn ymddangos unwaith ar gyfer pob darparydd lle bônt wedi terfynu rhaglen gymwys. Os bydd dysgwr yn terfynu sawl rhaglen gymwys o fewn y flwyddyn academaidd, caiff cyrchfannau eu hadrodd yn erbyn y rhaglen a ddechreuwyd ganddynt yn fwyaf diweddar.

# Ffynonellau Data

## Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEO)

Mae'r cyhoeddiad hwn yn defnyddio data o'r Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEO), a gasglwyd ynghyd gan wahanol adrannau'r llywodraeth ac sy'n cael ei defnyddio i wella'r wybodaeth sydd ar gael am ystod o bynciau ar draws gwahanol feysydd polisi.

Mae'r astudiaeth LEO yn cysylltu gwybodaeth am unigolion, gan gynnwys:

- Nodweddion personol fel rhywedd, grŵp ethnig ac oedran
- Addysg, gan gynnwys ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch a fynychwyd, cyrsiau a gymerwyd, a chymwysterau a enillwyd
- Cyflogaeth ac incwm
- Budd-daliadau a hawliwyd

Mae'r datganiad preifatrwydd sy'n esbonio sut y rhennir ac y defnyddir data personol yn y prosiect hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan Gov.UK: astudiaeth deilliannau addysg hydredol: sut rydym yn defnyddio ac yn rhannu data.

Mae ein cyfranogiad yn y prosiect hwn wedi ein galluogi i gysylltu data dysgu o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a Chasgliadau Data Ôl-16 â data budd-daliadau, cyflogaeth ac enillion gan y DWP a CThEF.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn defnyddio data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), gan ddefnyddio'r Set Ddata Addysg wedi'i Pharu i gael nodweddion ychwanegol dysgwyr, fel darpariaeth Anghenion Addysg Arbennig/ Angen Dysgu Ychwanegolyn yr ysgol a chymhwysedd i dderbyn PYaDd.

## Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Yn cynnwys data ar addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned. Fe'i cesglir ar sail 'dreigl' drwy gydol y flwyddyn gan rewi ystadegau'n rheolaidd. Dyma ffynhonnell ystadegau ar ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach (colegau) yng Nghymru.

Daw'r holl ddata ar gyfer sefydliadau addysg bellach o'r LLWR.

## Casgliadau Data ôl-16

Bob mis Hydref, mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir gyda chweched dosbarth ac ysgolion canol gyda disgyblion ym mlynyddoedd 12, 13 ac/neu 14 adrodd ar bob rhaglen ddysgu a gweithgaredd a gyflawnwyd gan ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

## Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Casgliad blynyddol o ystod o ddata ledled y DU o brifysgolion, colegau addysg uwch a darparwyr addysg uwch eraill a ariennir o ffynonellau gwahanol; caiff y data hyn wedyn eu darparu i gyrff cyllido addysg uwch llywodraethau'r DU i gefnogi eu gwaith i reoleiddio a chyllido darparwyr addysg uwch. Mae darparwyr yn cyflwyno data i HESA naill ai drwy'r cofnod Myfyriwr neu'r cofnod Myfyriwr amgen. Mae HESA bellach yn adrodd drwy

ddefnyddio'r ddau gofnod cyfun hyn i greu darlun mwy cyflawn o addysg uwch. Mae data o'r cofnod Myfyriwr amgen wedi'u cynnwys yn ein cyfrifiadau cyrchfannau dysgu.

### Data Cyflogaeth P45 a P14 (a gedwir gan CThEF)

Set ddata weinyddol sy'n cynnwys y rhai sy'n talu treth drwy PAYE drwy P45 a P14 wedi'u cyflwyno gan y cyflogwr, neu drwy lenwi ffurflen dreth hunanasesu. Prif bwrpas y broses hon yw casglu treth gan y rhai sy'n gymwys i'w thalu drwy'r mecanwaith hwn, felly nid yw'n cynnwys pawb. Nid yw'n ofynnol i gyflogwyr ddarparu gwybodaeth i CThEF am unigolion ag enillion sy'n is na'r trothwy treth, ond yn achos cyflogwyr mawr tybir bod yr unigolion hyn wedi'u cynnwys yn sgil dulliau o drosglwyddo data.

Ar ben hynny, dechreuodd CThEF weithredu Gwybodaeth Amser Real (GAR) ym mis Ebrill 2013 sy'n cynnwys bron pob unigolyn o'r fath. Mae GAR yn cynnig gwelliannau sylweddol i'r system P45 o ran y data a gynhwysir, gan fod yn rhaid i gyflogwyr bellach ddarparu gwybodaeth am eu holl weithwyr os oes hyd yn oed un gweithiwr o fewn y cwmni yn ennill cyflog sy'n uwch na'r Terfyn Enillion Isaf. Bydd symud i'r GAR yn golygu bod cwmpas y data yn ehangach ar gyfer y blynyddoedd ariannol diweddaraf.

## Oedi

Mae'r holl ddata a ddefnyddir yn y broses hon wedi'u tynnu o ffynonellau gweinyddol, ac mae'n cymryd amser i'w prosesu a'u coladu. Mae'r oedi rhwng y cyfnod cyfeirio ac argaeledd y set ddata i'w dadansoddi fel a ganlyn:

- Cesglir data LLWR o ddatganiadau gan golegau, gyda'r data dros dro a gesglir fel arfer yn cael eu cyhoeddi bob chwarter. Nid yw ffurflenni treth fel arfer yn cael eu llenwi tan chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd, sy'n dechrau o 1 Awst i 31 Gorffennaf.
- Caiff Casgliadau Data Ôl-16 eu coladu o ddatganiadau gan ysgolion a gynhelir sy'n cynnwys chweched dosbarth ac ysgolion canol gyda disgyblion ym mlynyddoedd 12, 13 ac/neu 14 ym mis Hydref, ac fel arfer maent wedi'u cwblhau erbyn mis Rhagfyr. Cesglir data yn ôl-weithredol ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol gyfan.
- Caiff data HESA eu coladu o ddatganiadau gan sefydliadau, ac mae data ar gyfer y flwyddyn academaidd lawn ar gael tua chwe mis wedi i'r flwyddyn academaidd ddod i ben.
- Caiff data cyflogaeth eu paru â data'r DWP yn rheolaidd. Caiff rheolau glanhau eu cymhwyso i'r data, sy'n fodd i ganfod hen gofnodion o'u diweddaru â gwybodaeth newydd. Gall gwybodaeth newydd ddod drwodd am swydd ar ôl iddi ddod i ben, felly mae hyn yn achosi newid cyson, ac yn y gorffennol ystyriwyd bod y data yn gyflawn ar ôl tua chwe mis. Defnyddir y data diweddaraf sydd wedi'u paru yn y cyhoeddiad hwn, felly mae'n bosibl na fydd data a gyflwynwyd ar gyfer blynyddoedd cynt yn cyd-fynd â'r rhai a gyflwynwyd mewn cyhoeddiadau blaenorol yn y gyfres hon.

## Y Broses Baru

Cynhyrchwyd cyrchfannau cyflogaeth drwy defnyddio set ddata wedi'i pharu o ffynonellau data gweinyddol lefel unigolyn gan Lywodraeth Cymru, y DWP a CThEF. Caiff dysgwyr o'r LLWR a Chasgliadau Data Ôl-16 eu paru â chofnodion budd-daliadau'r DWP a ffurflenni treth incwm P45 a P14 CThEF drwy baru cymysgedd o Rif Yswiriant Gwladol a manylion personol eraill. Mae'r algorithm paru yn dibynnu ar boblogi nifer o feysydd yn gywir ar draws y naill set ddata a'r llall. Yn ogystal â hyn, am resymau dilys mae'n bosibl na fydd gan bob dysgwr unrhyw gofnod o gyflogaeth neu fudd-daliadau.

Ar ôl sefydlu'r data cyfatebol, y cam nesaf yw cyfuno'r ffeiliau data gwahanol (cyflogaeth, budd-daliadau a dysgwyr) ar sail y cyswllt yng nghofnod yr unigolyn a ddiffinnir drwy'r broses baru. Mae setiau data'r DWP a CThEF yn rhoi cofnod o'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau a'r rhai sy'n talu treth drwy'r systemau hunanasesu a Thalu Wrth Ennill (PAYE). Yna cymhwysir rheolau prosesu i drawsnewid y data yn wybodaeth ddefnyddiadwy am gyflogaeth a budd-daliadau a dderbynnir i gefnogi'r holl waith dadansoddi.

Mae cyrchfannau dysgu wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio'r 'Set Ddata Addysg wedi'i Pharu' y cyfeiriwyd ati'n flaenorol. Mewn datganiadau cynharach o'r dadansoddiad hwn, cynhaliwyd yr ymarfer cysylltu data gan London Economics (LE) o dan gontract gan Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n cynhyrchu'r broses gysylltu bellach. Mae'r ymarfer cysylltu data yn cysylltu dynodydd dienw cyffredin â chofnodion o gasgliadau data addysg lluosog, fel y gellid cysylltu'r gwahanol setiau data i ddibenion ystadegol ac ymchwil. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, caiff y garfan o ddysgwyr LLWR a Chasgliadau Data Ôl-16 eu paru â data LLWR, Casgliadau Data Ôl-16 a HESA ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf er mwyn edrych ar ddeilliannau dysgu mewn addysg bellach ac uwch.

## Mesurau cyrchfan

Mae cyrchfan dysgwr yn ymwneud â'i weithgarwch yn y flwyddyn academaidd ganlynol. Felly, ar gyfer carfan 2022/23, adroddir ar gyrchfannau ar gyfer 2023/24.

### Cyflogaeth barhaus

Nod y mesur cyflogaeth barhaus yw cyfrif cyfran y dysgwyr mewn swydd barhaus ar ôl terfynu eu cwrs. Cynhyrchir cyrchfannau cyflogaeth drwy baru'r LLWR a'r Casgliadau Data Ôl-16 â chofnodion treth CThEF (darperir rhagor o fanylion am hyn yn ddiweddarach).


Wrth ddiffinio cyflogaeth barhaus, edrychir ar y gweithgarwch cyflogaeth yn y cyfnod o chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth, wedi i'r flwyddyn academaidd pan gyflawnwyd y nod dysgu ddod i ben. Er mwyn i ddysgwyr 2022/23 gael eu cyfrif fel rhai mewn cyflogaeth barhaus:

- Rhaid i ddysgwr fod wedi cwblhau ffurflen dreth hunanasesu ar gyfer blwyddyn dreth 2023-24, neu
- Rhaid i ddysgwr fod mewn cyflogaeth PAYE â thâl am o leiaf un o bob pum niwrnod yn y chwe mis rhwng Hydref 2023 a Mawrth 2024

Os yw dysgwr yn cael ei gyflogi yn y pum mis rhwng Hydref 2023 a Chwefror 2024, ond ddim ym mis Mawrth 2024, rhaid iddo hefyd gael ei gyflogi ym mis Ebrill 2024.

Mae'r mesur yn caniatáu saib o fis mewn cyflogaeth PAYE i adlewyrchu'r ffaith y gallai cyflogaeth gychwynnol fod yn fwy anwadal yn dilyn cyfnod o ddysgu. Lle ceir saib yn mis Mawrth caiff gweithgarwch ei wirio ym mis Ebrill i weld ai saib byr ydoedd neu saib mwy sylweddol.

**Ffigur 1: Yr wyth senario bosibl sy'n arwain at ystyried bod dysgwr mewn cyflogaeth barhaus**





## Dysgu parhaus

Nod y mesur dysgu parhaus yw cyfrif cyfran y dysgwyr sy'n dysgu'n barhaus, waeth beth fo'u gweithgarwch economaidd, ar ôl terfynu eu cwrs. Caiff carfan 2022/23 o ddysgwyr LLWR a Chasgliadau Data Ôl-16 eu paru â data LLWR, Casgliadau Data Ôl-16 a HESA ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf er mwyn edrych ar ddeilliannau dysgu mewn addysg bellach ac uwch.

Wrth ddiffinio dysgu parhaus, edrychir ar y gweithgarwch dysgu yn y cyfnod o chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth, wedi i'r flwyddyn academaidd pan gyflawnwyd y rhaglen ddysgu ddod i ben. Er mwyn i ddysgwyr 2022/23 gael eu cyfrif fel dysgwyr sy'n dysgu'n barhaus:

- Rhaid i ddysgwr fod yn dysgu neu'n derbyn hyfforddiant am un diwrnod o leiaf ym mhob un o'r chwe mis rhwng Hydref 2023 a Mawrth 2024

**Ffigur 2: Yr unig senario sy'n arwain at ystyried bod dysgwr yn dysgu'n barhaus**




## Cyrchfan barhaus

Nod y mesur cyrchfan barhaus yw cyfrif cyfran y dysgwyr â deilliant parhaus, naill ai mewn dysgu neu gyflogaeth (neu'r ddau). Er mwyn i ddysgwyr 2022/23 gael eu cyfrif fel dysgwyr sydd â chyrchfan barhaus, rhaid i ddysgwr naill ai:

- Gael deilliant cyflogaeth parhaus, neu
- Cael deilliant dysgu parhaus, neu
- Ymwneud â dysgu, hyfforddiant neu gyflogaeth â thâl ym mhob un o'r chwe mis rhwng Hydref 2023 a Mawrth 2024

O dan y senario olaf, dim ond unwaith y gall dysgwyr 'newid' rhwng dysgu a chyflogaeth. Er enghraifft, os ydyn nhw'n dysgu am 2 fis, wedyn mewn cyflogaeth am 4 mis, cânt eu cyfrif fel rhai sydd â chyrchfan barhaus. Fodd bynnag, os ydyn nhw'n dysgu am 2 fis, yna mewn cyflogaeth am 2 fis, yna'n dysgu am 2 fis, ni chânt eu cyfrif fel rhai sydd â chyrchfan barhaus.

**Ffigur 3: Y deuddeg senario posibl sy'n arwain at ystyried bod dysgwr mewn cyrchfan barhaus**





## Dysgu (heb fod yn barhaus)

Nod y mesur dysgu yw cyfrif cyfran y dysgwyr sydd mewn unrhyw ddysgu, waeth beth fo'u gweithgarwch economaidd, ar ôl terfynu eu cwrs. Defnyddir yr un ffynonellau data a chyfnod cyfeirio ar gyfer hyn â'r mesur dysgu parhaus, ond i gyfrif bod dysgwr yn dysgu:

- Rhaid i ddysgwr fod yn dysgu neu'n derbyn hyfforddiant am un diwrnod o leiaf ym mhob un o'r chwe mis rhwng Hydref 2023 a Mawrth 2024

**Ffigur 4: Yr unig senario sy'n arwain at ystyried bod  dysgwr yn dysgu**




## Cyrchfan dysgu neu gyflogaeth barhaus

Nod y mesur cyrchfan dysgu a chyflogaeth barhaus yw cyfrif cyfran y dysgwyr sy'n mynd i ddysgu neu gyflogaeth barhaus fel deilliant. Er mwyn i ddysgwyr 2022/23 gael eu cyfrif fel rhai sydd â chyrchfan, rhaid i ddysgwr:

- Gael deilliant cyflogaeth parhaus, neu
- Gael deilliant dysgu (ni oes angen iddo fod yn barhaus)

## Cyfyngiadau'r data

Ar hyn o bryd, nid ydym wedi cynnwys gwybodaeth am y sector cyflogaeth na'r enillion, ac nid oes gennym unrhyw ddata ar oriau a weithiwyd. Mae'n bwysig nodi bod y mesur cyflogaeth barhaus hefyd yn cynnwys gweithwyr rhan-amser, fel rhai sydd â swydd ran-amser ochr yn ochr â dysgu. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl defnyddio'r data wedi'u paru sydd gennym i nodi a yw dysgwr wedi symud ymlaen i gyrchfan sy'n gysylltiedig â'i raglen astudio. Rydym yn gobeithio cynnwys rhagor o wybodaeth am y sector cyflogaeth yn y dyfodol.

# Data cydraddoldeb

Ym mis Ebrill 2022, cafodd adran ar gyrchfannau yn ôl nodweddion dysgwyr ei chynnwys yn y datganiad am y tro cyntaf. Cafodd dadansoddiad blaenorol ar sail oedran, rhywedd ac amddifadedd lluosog ei gynnwys yn ogystal â dadansoddiad newydd o gyrchfannau ar sail ethnigrwydd, Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Ar ben hynny, yn dilyn newidiadau i ddata anghenion addysgol arbennig yn sgil gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018; mae data ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi cael eu cynnwys ochr yn ochr â'r data AAA.

Ceir heriau wrth gynhyrchu'r ystadegau hyn oherwydd gwahaniaethau yn y modd y caiff gwybodaeth ei chofnodi ar draws y ffynonellau data amrywiol ar gyfer gwahanol ddarparwyr dysgu.

Cymerwyd data ethnigrwydd o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a Chasgliadau Data Ôl-16 presennol. Roedd gan bob set ddata ddadansoddiadau categori gwahanol ar gyfer math o ethnigrwydd, ac mae'r rhain wedi cael eu cyfuno i greu grwpiau ethnig eang fel bo modd cymharu.

Er mwyn dadansoddi AAA/ADY a chymhwysedd i dderbyn phrydau ysgol am ddim, defnyddiwyd ein Set Ddata Addysg wedi'i Pharu (MED), sy'n cysylltu setiau data addysg

o Gyfnod Allweddol 4 hyd at Addysg Uwch. Drwy'r MED bu modd cysylltu myfyrwyr yn set ddata LEO â'u cofnod yn y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) i ychwanegu dadansoddiad pellach o nodweddion cydraddoldeb at y datganiad hwn.

Mae gwybodaeth am gyfraddau paru ac effaith y dull hwn wedi'i chynnwys yn yr adrannau priodol yn y datganiad hwn.

Cesglir CYBLD yn flynyddol o bob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Rhaid i'r holl ddisgyblion a oedd ar y gofrestr ar ddyddiad y cyfrifiad gael eu cynnwys yn y datganiad, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am nodweddion disgyblion megis angen addysgol arbennig, angen dysgu ychwanegol, a chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim.

Mae data addysg wedi'u paru ar gael o 2010/11 ymlaen. Gan hynny, dim ond myfyrwyr yr oeddem yn gallu eu paru â data ysgol ar ôl y dyddiad hwnnw sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad AAA/ADY a chymhwysedd i dderbyn phrydau ysgol am ddim. Mae hyn yn golygu bod y carfannau o fyfyrwyr yn y dadansoddiadau hynny yn iau, ac y gall fod ganddynt ddeilliannau gwahanol i weddill y garfan o ddysgwyr. Gan hynny, ni ddylid cymharu'r dadansoddiadau yn y siartiau hyn yn gysylltiedig ag AAA/ADY a chymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim â'r cyfansymiau cyffredinol yn y datganiad hwn.

## Argaeledd data ar gyfer dimensiynau cydraddoldeb

| Dimensiwn cydraddoldeb | Casglwyd | Wedi'i gynnwys yn y datganiad |
|---|---|---|
| Hil/Ethnigrwydd | Do | Do |
| Grwpiau oedran | Do | Do |
| Rhywedd | Do | Do |
| Amhariadau ac anabledd | Do | Mae dadansoddiad yn ôl Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i gynnwys oherwydd gwahaniaethau yn y modd y cesglir data ar anabledd, amhariadau ac AAA/ADY ar draws sectorau – gweler uchod. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Naddo | Naddo |
| Crefydd neu gred | Naddo | Naddo |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Naddo | Naddo |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Naddo | Naddo |
| Hunaniaeth o ran rhywedd | Yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn unig – mae categori rhywedd 'Arall' ar gael i ddysgwyr nad ydynt yn uniaethu fel gwryw na benyw. | Naddo |

## Talgrynnu

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae niferoedd llai na 5 wedi'u hatal. Mae canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae canrannau sy'n seiliedig ar enwadur o lai na 23 wedi'u hatal.

Caiff gwahaniaethau rhwng gwerthoedd eu cyfrifo drwy ddefnyddio gwerthoedd heb eu talgrynnu, felly gallai mân wahaniaethau godi wrth gymharu â'r ffigurau sydd wedi'u talgrynnu.

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum dimensiwn ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb a Chynhwysiant.

### Perthnasedd

Defnyddir y mesurau a nodir yn y cyhoeddiad hwn:

- gan Medr i fonitro perfformiad darparwyr;
- gan Estyn, i lywio dyfarniadau arolygu ynghylch safonau; a
- chan y darparwyr eu hunain, fel offeryn rheoli i fesur eu perfformiad eu hunain a'u meincnodi eu hunain yn erbyn cyfartaleddau'r sector, yn rhan o'u cylchoedd hunanasesu.

Defnyddir y mesurau hefyd o fewn Medr a thu hwnt i fonitro tueddiadau addysgol, ac fel llinell sylfaen i ddadansoddi'r data sydd wrth wraidd yr ystadegau hynny ymhellach. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- swyddogion yn Medr;
- Ysgrifenyddion Cabinet, Gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Aelodau o’r Senedd ac ymchwilwyr yn Senedd;
- adrannau eraill y llywodraeth;
- awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol;
- myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion;
- ysgolion a sefydliadau addysg bellach;
- dinasyddion, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau.

### Manwl gywirdeb

Bydd ystadegwyr o fewn y Medr yn cynnal prosesau sicrhau ansawdd cyn cyhoeddi'r datganiad hwn. Mae'r adran nodiadau yn rhoi trosolwg o faterion methodolegol/ansawdd data sy'n ymwneud yn benodol â'r data yn yr allbwn hwn.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Mae data ar gyfer blwyddyn academaidd benodol yn cael eu casglu a'u cyhoeddi yn amodol ar argaeledd y ffynonellau data ac ar gwblhau'r broses paru data allanol. Gweler yr adran ar 'Oedi' am ragor o wybodaeth.

## Hygyrchedd ac eglurder

Ceir rhag-hysbysiad ynghylch y datganiad ystadegol hwn, ac wedyn caiff y datganiad ei gyhoeddi yn yr Adran ystadegau ar wefan Medr.

Cyhoeddir y datganiad ar ffurf PDF fformat hygyrch (PDF/A), ochr yn ochr â thaenlen sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS). Mae'r datganiad a'r daenlen, y naill a'r llall, yn cadw at ganllawiau hygyrchedd.

## Cymaroldeb a chydlyniad

Mae'r Adran Addysg (DfE) wedi cyhoeddi dadansoddiad sy'n manylu ar gyrchfannau dysgwyr AB yn Lloegr, y ceir hyd iddo drwy'r ddolen ganlynol: Addysg Bellach: Deilliannau, 2021 i 2022.

Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau rhwng methodolegau a chasgliadau data, dylid bod yn ofalus wrth eu cymharu'n uniongyrchol â'r ffigurau yn y datganiad hwn. Yn benodol:

- Mae ffigurau'r Adran Addysg yn seiliedig ar brentisiaethau pob oedran, hyfforddeiaethau pob oedran ac oedolion (19+) sy'n ddysgwyr mewn AB ac yn ddysgwyr Sgiliau, tra bo'r ffigurau hyn hefyd yn cynnwys dysgwyr AB 16-18 oed a dysgwyr DSW a rhai yn y chweched dosbarth mewn ysgolion.
- Mae ffigurau'r Adran Addysg yn seiliedig ar nodau dysgu cymwys a gwblhawyd, tra bo'r ffigurau hyn yn seiliedig ar raglenni dysgu a derfynwyd, ac eithrio'r rhai a roddodd y gorau i ddysgu'n gynnar (dysgwyr a oedd wedi ymrestru ar raglen ddysgu am lai nag 8 wythnos);
- lle bo dysgwr yn cwblhau nifer o nodau dysgu cymwys o fewn y flwyddyn academaidd, mae'r Adran Addysg yn adrodd ar ddeilliannau yn erbyn ei lefel uchaf, tra bo'r adroddiad hwn yn edrych ar y rhaglen a derfynwyd yn fwyaf diweddar; ac

Mae'r Adran Addysg yn cynnwys dysgu ar unrhyw lefel fel cyrchfan ddysgu (h.y. byddai dysgwr sy'n cwblhau rhaglen lefel 3 ac yna'n mynd ymlaen i raglen lefel 2 yn y flwyddyn academaidd ganlynol yn cael ei gyfrif fel pe bai'n dysgu), ond nid yw'r ffigurau hyn ond yn cyfrif bod dysgwr yn dysgu os yw'r rhaglen y mae'n symud ymlaen iddi yn y flwyddyn academaidd ganlynol ar lefel sy'n gydradd neu'n uwch na'r rhaglen a derfynwyd ganddo.

Caiff cyfraddau'r cyrchfannau a gyhoeddwyd yn flaenorol eu hailgyfrifo drwy ddefnyddio'r data diweddaraf wedi'u paru a oedd ar gael wrth gyhoeddi, oherwydd gallent arwain at gyfradd baru uwch. Bach iawn yw'r effaith ar y cyfraddau ond gallai'r ffigurau fod fymryn yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn flaenorol.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr erthygl ystadegol Cyrchfannau Addysgol Dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16, 2014/15, sy'n edrych ar gyrchfannau addysgol y rhai sy'n gadael Cyfnod Allweddol 4 a 5.

Mae'r erthygl ystadegol Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 yr effeithiwyd arnynt gan bandemig y coronafeirws (COVID-19): Awst 2020 i Orffennaf 2021 yn cynnwys dadansoddiad untro o ddilyniant dysgwyr Blwyddyn 11 i addysg ôl-16.

Cyhoeddir gwybodaeth hefyd gan Gyrfa Cymru, drwy'r Arolwg Cyrchfannau Disgyblion, ar gyrchfannau myfyrwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11, 12 a 13.

Ym mis Gorffennaf 2022, roedd yr erthygl ystadegol Ystadegau dysgu ôl-16 yn ôl grŵp ethnig dysgwyr: Awst 2017 i Orffennaf 2021 cynnwys dadansoddiad o gyrchfannau yn ôl grŵp ethnig manwl ac yn ymrwymo i sicrhau bod y data ar gael mewn cyhoeddiadau rheolaidd yn y dyfodol. Mae'r siartiau ar ethnigrwydd yn y datganiad hwn bellach yn cynnwys dadansoddiadau manylach.

### Gwaith yn y dyfodol

Gall ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu fod yn ystadegau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes, a byddant yn cael eu profi gyda defnyddwyr, yn unol â'r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mewn rhai cyhoeddiadau blaenorol, galwyd yr ystadegau hyn yn 'ystadegau arbrofol'. Rydym yn parhau i adolygu'r fethodoleg a ddefnyddir i gynhyrchu'r ystadegau hyn ac yn fwy cyffredinol yn ystyried y ffordd orau o fesur dilyniant a chyrchfannau dysgwyr o fewn addysg drydyddol, a thu hwnt.

Mae croeso ichi gysylltu â ni'n uniongyrchol gydag unrhyw sylwadau ynglŷn â'r modd yr ydym yn bodloni'r safonau hyn. Gellir rhoi adborth drwy e-bost i ystadegau@medr.cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau drwy anfon e-bost i rheoleiddio@ystadegau.gov.uk neu drwy wefan y Swyddfa honno.

## Rhagor o fanylion

Mae'r datganiad hwn ar gael yn: medr.cymru

Gweler y rhestr geirfa yn y prif adroddiad.

### Allbynnau ystadegol eraill sy'n defnyddio'r LLWR sy'n sail i'r datganiad

- Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned - Ystadegau ar ddysgwyr sydd wedi ymrestru ar eu gweithgareddau.
- Mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau - Ystadegau ar lwyddiant a chwblhau prentisiaethau yn ôl lefel astudio, math o nod dysgu, sector, a nodweddion dysgu.
- Mesurau perfformiad cyson dysgu ôl-16 (cyflawniad), Awst 2023 i Orffennaf 2024 – Ystadegau ar ddeilliannau addysg bellach a'r chweched dosbarth.
- Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd
- Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ


Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**